Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2024 – Rhagfyr 2024

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys


**Ein Hegwyddor Pobl** .................... **2**

1 Absenoldeb Salwch .................... 2

1.1 Pob Absenoldeb Salwch .................... 2

1.2 Salwch Tymor Byr .................... 4

1.3 Salwch Hirdymor .................... 5

**Ein Hegwyddor Atal** .................... **7**

2 Yr Holl Ddigwyddiadau .................... 7

3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant .................... 8

4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) .................... 10

5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref .................... 11

6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref .................... 12

7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref .................... 13

8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) .................... 14

9 Archwiliadau Diogel ac Iach .................... 17

**Ein Hegwyddor Diogelu** .................... **19**

10 Galwadau Diangen .................... 19

11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol .................... 20

12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai .................... 21

13 CEF Berwyn .................... 21

**Ein Hegwyddor Ymateb** .................... **23**

14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad .................... 23

15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio .................... 23

16 Technolegau Datblygol .................... 24

17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau .................... 25

18 Tanau gwyllt .................... 25

19 Llifogydd .................... 26

**Geirfa** .................... **27**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i wneud y mwyaf o'u presenoldeb yn y gwaith ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, ar gyfer GTAGC, oherwydd absenoldeb salwch wedi cynyddu i 5.67% yn ystod chwarter tri, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r un chwarter yn ystod y flwyddyn flaenorol o 5.21%, ond yn ostyngiad o 6.15% yn chwarter dau ar gyfer 2024/25.

Roedd 940 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC yn ystod chwarter tri, sy'n gynnydd o 30 o bobl o'r un cyfnod yn 2023/24.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau i ddata gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch

| | Blwyddyn 2023/2024 | | | Blwyddyn 2024/2025 | | | Amrywiant Cyfradd Absenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Achosion Ch3 | Diwrnodau Ch3 a gollwyd | Amser Ch3 a gollwyd % | Achosion Ch3 | Diwrnodau Ch3 a gollwyd | Amser Ch3 a gollwyd % | |
| **Salwch Hirdymor** | 143 | 792 | 0.95% | 152 | 857 | 1.00% | ↑ 0.05% |
| **Salwch Tymor Byr** | 63 | 3572 | 4.27% | 78 | 3991 | 4.67% | ↑ 0.40% |
| **Cyfanswm** | **206** | **4364** | **5.21%** | **230** | **4848** | **5.67%** | **↑ 0.46%** |

Yn ystod chwarter tri, mae nifer y diwrnodau absenoldeb tymor byr ac achosion wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, er bod gostyngiad cyffredinol wedi bod o'i gymharu ag absenoldeb chwarter dau. Roedd absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.00% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd, sef cynnydd o 0.05% o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, gydag absenoldeb hirdymor bellach yn cyfrif am 4.67% o'r amser a gollwyd o 4.27%.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser wedi ei golli er bod llai o achosion o absenoldeb yn cael eu cofnodi. Y rheswm am hyn yw bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad o ganran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

### 1.2 Salwch Tymor Byr

Mae salwch tymor byr yn cyfateb i 1.00% o'r amser a gollwyd yn ystod chwarter tri.

| | 2023/24 – Achosion Ch3 | 2023/24 – Diwrnodau a gollwyd Ch3 | 2023/24 – Amser a gollwyd % Ch3 | 2024/25 – Achosion Ch3 | 2024/25 – Diwrnodau a gollwyd Ch3 | 2024/25 – Amser a gollwyd % Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser Cyflawn* | 55 | 299 | 1.17% | 45 | 282 | 1.13% |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 62 | 344 | 0.80% | 69 | 393 | 0.88% |
| Yr Ystafell Reoli | 9 | 45 | 1.49% | 10 | 28 | 1.06% |
| Adrannau Corfforaethol | 17 | 104 | 0.83% | 28 | 154 | 1.16% |
| **Cyfanswm** | **143** | **792** | **0.95%** | **152** | **857** | **1.00%** |

(*Amser cyflawn - mae'n cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn ffigurau amser cyflawn a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol).

**Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)**

| | Rheswm Dros Absenoldeb | Achosion | Amser a gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd, Ffliw | 40 | 23.4% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff | 10 | 7.7% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - aelodau ucha'r corff | 7 | 5.4% |

*Mae amser a gollwyd % yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion*

Mae'r rhesymau dros absenoldeb uchod ar draws pob math o ddyletswydd.

Roedd y nifer uchaf o achosion o absenoldeb tymor byr o ganlyniad i annwyd/ffliw, ac absenoldebau cyhyrysgerbydol oedd yr ail a'r trydydd uchaf.

## 1.3 Salwch Hirdymor

Mae salwch hirdymor yn cyfateb i gyfartaledd o 4.67% o'r amser a gollwyd yn ystod chwarter tri.

| Salwch Hirdymor | 2023/24 Achosion Ch3 | 2023/24 Diwrnodau a gollwyd Ch3 | 2023/24 Amser a gollwyd % Ch3 | 2024/25 Achosion Ch3 | 2024/25 Diwrnodau a gollwyd Ch3 | 2024/25 Amser a gollwyd % Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd system dyletswydd amser cyflawn | 14 | 742 | 2.93% | 24 | 1273 | 5.11% |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 38 | 2229 | 5.20% | 46 | 2332 | 5.22% |
| Yr Ystafell Reoli | 3 | 163 | 6.56% | 1 | 57 | 2.16% |
| Adrannau Corfforaethol | 8 | 438 | 3.50% | 7 | 329 | 2.48% |
| **Cyfanswm** | **63** | **3572** | **4.27%** | **78** | **3991** | **4.67%** |

### Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (Achosion)

| | Rheswm Dros Absenoldeb | Achosion | Amser a gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff | 23 | 24.7% |
| 2 | Iechyd Meddwl - Straen | 14 | 17.4% |
| 3 | Methu Archwiliad Meddygol / Prawf Ffitrwydd | 6 | 8.2% |

*Mae amser a gollwyd % yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr Achosion*

Mae rhesymau absenoldeb salwch hirdymor yn ystod chwarter tri wedi aros yr un fath â chwarter dau.

**Cyhyrysgerbydol** – Mae absenoldeb oherwydd aelodau gwaelod y corff yn parhau i fod yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion ac amser a gollwyd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi gwaethygu'r anaf neu achosi anaf arall.

**Absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl** - mae straen yn parhau i fod o fewn y tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor yn ystod chwarter tri, gyda chynnydd bychan yn nifer yr achosion a'r amser a gollwyd o'i gymharu â chwarter dau y flwyddyn gyfredol. Er bod y gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn achosion iechyd meddwl, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad, fel yr adroddwyd gan fwletin ystadegau misol y GIG. Mae oedolion sy'n cael cymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Mae cefnogaeth yn cael ei darparu i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth i weithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl a gwasanaethau penodol eraill.

**Cymhariaeth Cymru Gyfan**

Nifer y diwrnodau sifft cyfartalog a gollwyd y person ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru gyfan oedd 11.62 diwrnod sifft y person ar gyfer staff amser cyflawn mewn lifrai, 17.72 diwrnod sifft y person ar gyfer staff yr Ystafell Reoli, ac 14.76 diwrnod sifft y person ar gyfer staff Corfforaethol.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddiwrnodau sifft a gollwyd y person oherwydd absenoldebau hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

Ar gyfer cyfanswm yr absenoldeb:

- collwyd 9.02 diwrnod sifft y person gan staff amser cyflawn mewn lifrai yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu ag 13.54 diwrnod y person a gollwyd gan staff amser cyflawn mewn lifrai yn Ne Cymru a 9.54 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru;
- collwyd 12.19 diwrnod sifft y person gan staff yr Ystafell Reoli yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â 23.7 diwrnod sifft y person yn Ne Cymru ac 16.66 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru;
- collwyd 10.09 diwrnod sifft y person gan staff Corfforaethol yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â 21.24 diwrnod sifft y person yn Ne Cymru a 10.4 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Sylwer, mae data Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gyda'r diweddariad diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2024, ac mae'n adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol yn unig ac nid yw'n cynnwys data am staff ar alwad.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Yr Holl Ddigwyddiadau

**Pob Digwyddiad** - aethpwyd at **4,852** o ddigwyddiadau yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n gynnydd o 4.1% o 4,660. Mae hyn hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 4,440.

**Tanau – 1,252**, gostyngiad o 6.7%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,460.


**Galwadau Diangen – 2,521**, cynnydd o 11.6%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,072.

**Galwadau Gwasanaeth Arbennig - 1,079**, sef cynnydd o 1.9%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 909.



## 3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd at **1,252** o danau; gostyngiad o 6.7% o 1,342.




**Prif Danau - 652**


- **Damweiniol: 526**, 80.7%.
- **Bwriadol: 126**, 19.3%.

**Tanau Eilaidd - 541**

- **Damweiniol: 282**, 52.1%.
- **Bwriadol: 259**, 47.9%.

**Tanau Simdde**

- **59**, 4.7% o'r holl danau yr aethpwyd atynt - mae hyn yn gynnydd o 34.1% o 44.



**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd ar ddiwedd chwarter tri oedd **15,055**. Rydym o flaen y targed ar gyfer y flwyddyn; fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'n hasiantaethau cyfeirio i sicrhau bod atgyfeiriadau o'r safon uchaf yn cael eu derbyn.

Yn ystod chwarter tri, datblygwyd proses newydd sy'n galluogi criwiau gweithredol i ganfod adeiladau sydd wedi dirywio ac sydd wedi denu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r criwiau'n anfon yr wybodaeth ymlaen at y tîm atal, sy'n hysbysu'r awdurdodau priodol.

Roedd ymgyrchoedd tymhorol ac ymgyrchoedd wedi’u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn cynnwys: diogelwch coelcerthi a thân gwyllt, diogelwch trydanol, diogelwch simneiau, a diogelwch y Nadolig.


Cynhaliwyd sesiynau addysgol pwrpasol ar y cyd â grwpiau awdurdodau lleol ac elusennau i geiswyr lloches. Roedd cyfieithwyr mewn pedair iaith wahanol yn bresennol yn y sesiynau hyn. Mae gweithgarwch parhaus yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu.

Yn ystod chwarter tri, dechreuodd menter newydd gyda Banc NatWest. Mae'r sesiynau hyn wedi'u hanelu at yr henoed ac maent yn gynhyrchiol iawn, gan ein galluogi i gynnig Archwiliadau Diogel ac Iach i'n prif gynulleidfa darged.

Digwyddodd llawer iawn o ymgysylltu a gweithgarwch amlasiantaethol wedi'i dargedu dros gyfnod y Nadolig.

## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

Aethpwyd i **231** o danau damweiniol mewn cartrefi, gostyngiad o 13.2% o 266. Mae hyn hefyd yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 280.



## 5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref

Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod tri chwarter y flwyddyn ariannol. Gallai'r rhai sydd wedi dangos cynnydd y chwarter hwn fod yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, a'r costau sydd ynghlwm â gwresogi cartrefi erbyn hyn.


Er mai'r mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', roedd hyn yn dal i ddangos gostyngiad o 29.5% o 61 i **43**.

Roedd y prif achosion eraill lle gwelwyd gostyngiad yn cynnwys:

- 'Coginio – coginio arall' a oedd yn dangos gostyngiad o 16.7% o 48 i **40**.
- 'Nam ar offer neu beiriant', a oedd yn dangos gostyngiad sylweddol o 40.0% o 35 i **21**.

Er gwaethaf hyn, gwelodd ychydig o brif achosion gynnydd yn ystod y chwarter hwn. Roeddent yn cynnwys:


- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a gynyddodd 30.0% o 20 i **26**.
- 'Arall', a gynyddodd 10.5% o 19 i **21**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu beiriant (ffynhonnell gwres)', a gynyddodd 130.0% o 10 i **23**.



## 6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref

Cafodd cyfanswm o **35** o bobl anafiadau mewn **29** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf o unrhyw fath. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y cyfnod.

Mae nifer y bobl a anafwyd (gan gynnwys marwolaethau) o ganlyniad i Danau Damweiniol mewn Cartrefi wedi gostwng 43.5% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf hefyd wedi gostwng 40.8%.




O'r **35** a anafwyd, roedd **23** (65.7%) wedi eu 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu', cafodd **pedwar** fân anafiadau llosgi, cafodd **tri** anafiadau llosgi difrifol, cafodd **dau** 'Anawsterau anadlu (heblaw 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu)', cafodd **un arall** 'Gyfuniad o losgiadau a'u llethu gan nwy/mwg', ac roedd **un arall** wedi dioddef 'Sioc/Sioc Anaffylactig'. Cofnodwyd math o anaf yr **un** sy'n weddill fel 'Arall'.


## 7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref

**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **200** (86.6%) o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

Roedd larymau'n gweithredu ac wedi rhoi rhybudd mewn **139** (60.2%) o Danau Damweiniol mewn Cartrefi.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **31** o'r Tanau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt.

O'r **231** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd **206** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **25** heb eu cyfyngu.




**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i dân yn eu cartrefi:**

Ymgysylltu'n helaeth â grwpiau penodol dros gyfnod y Nadolig: er enghraifft, cydweithio ag elusennau i ddanfon anrhegion i bobl oedrannus sy'n byw ar eu pennau eu hunain, trefnu nifer o foreau coffi ar draws yr ardal, mynd i fanciau bwyd, digwyddiadau elusennol ac ymgysylltu mewn canolfannau siopa penodol.

Cyflwynwyd neges diogelwch tân y Nadolig drwy gystadleuaeth gwneud poster hynod lwyddiannus gyda'r nod o ymgysylltu ag aelodau iau ein cymdeithas, a derbyniwyd dros 900 o geisiadau o bob rhan o ardal y Gwasanaeth.

Mae ailgysylltu parhaus ag asiantaethau cyfeirio yn parhau er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn derbyn atgyfeiriadau sydd wedi'u hanelu at y bobl hynny sydd fwyaf bregus o ran tanau.

Gweithgarwch ac ymgysylltiad helaeth gyda myfyrwyr prifysgol ar draws ardal y Gwasanaeth - mae hyn yn cynnwys "Sgyrsiau Cegin" gorfodol a ddarperir gan griwiau gweithredol o Orsaf Dân Bangor. Mae gwaith yn mynd rhagddo i efelychu hyn yn Wrecsam.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws pob platfform cyfryngau.

**Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion**

- Ysgolion Cynradd yr ymwelwyd â hwy = 17 → 1,240 o ddisgyblion
- Ysgolion Uwchradd yr ymwelwyd â hwy (Criw Craidd) = tair→ 450 o ddisgyblion
- Unedau Anghenion Arbennig yr ymwelwyd â hwy = un → chwech o ddisgyblion

**Ffenics**

- Chwe chwrs gyda 46 yn bresennol.

**Ymyriadau Cyneuwyr Tanau**

- Cyflwynwyd chwe sesiwn Firesafe gan Pentre Peryglon
- Cyflwynwyd un sesiwn Cynllun Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE) yn fewnol


**PentrePeryglon**

Bu 5,669 o bobl ifanc yn bresennol yn sgil y senario Diogelwch yn y Cartref hyd at ddiwedd chwarter tri.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA)

Aethpwyd i gyfanswm o **1,079** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd). Mae hynny'n gynnydd o 1.9%.

Gostyngodd nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd atynt 6.6% i **185**.




Heblaw am Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd y categorïau a welodd y **cynnydd** mwyaf o ran ein presenoldeb yn cynnwys:

- **394** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' - cynnydd o 14.9% o 343.
- **77** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 54.0% o 50.
- **58** digwyddiad 'Rhyddhau o Lifft' - cynnydd o 61.1% o 36.

Er gwaethaf hyn, gwelodd categorïau eraill **ostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Roeddent yn cynnwys:

- **65** digwyddiad 'Llifogydd' - gostyngiad o 37.5% o 104.
- **56** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' - gostyngiad o 35.6% o 87.

**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

**Ymgyrch Ugain**

Yn ystod chwarter tri, rhoddwyd y cyflwyniad diogelwch ar ochr y ffordd i 622 o bobl a gafodd eu dal yn gyrru dros y terfyn cyflymder 20mya. Y ffigwr ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yw 2,240.

**Stori Olivia**

Cyflwynwyd Stori Olivia trwy gydol chwarter tri i brentisiaid Airbus, ac i fyfyrwyr yng Ngholeg Cambria, Llandrillo, Glynllifon, a Dolgellau.

Mae Stori Olivia yn parhau i gael ei chyflwyno gan Reolwyr Gwylfa Diogelwch Tân ac mae'n parhau i fod yn gyfredol ac yn hynod o effeithiol. Mae’r sesiynau yn aml yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru.

## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhawyd cyfanswm o **15,055** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **3,742** (24.9%) yn archwiliadau Blaenoriaeth uchel, gyda **2,020** (54.0% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner;
- Roedd **3,163** (21.0%) yn archwiliadau Blaenoriaeth ganolig, gyda **362** (11.4% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **8,150** (54.1%) yn archwiliadau Blaenoriaeth isel, gyda **527** (6.5% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner;

Cafodd cyfanswm o **2,909** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth - mae hyn yn gyfystyr ag 19.3% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Er y bu cynnydd o **4.1%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o **17.3%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd. Dyma'r nifer isaf o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth isel a chanolig a gwblhawyd yn dal i fod yn werthfawr, ac mae cyfanswm yr archwiliadau blaenoriaeth isel a chanolig wedi tyfu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 2.1% a 61.9% yn y drefn honno). Dyma'r nifer uchaf o archwiliadau isel a chanolig a gofnodwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.



**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

Er mwyn cefnogi a datblygu rhagor ar y gwaith o ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach gan ein criwiau gweithredol, dechreuodd proses newydd yn ystod chwarter tri. Bydd aelodau'r tîm atal yn awr yn mynd i o leiaf un sesiwn bob blwyddyn yn ystod y gweithgarwch atal dyddiol sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Wylfa. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth rannu gwybodaeth ac yn helpu i hyrwyddo'r arfer gorau.

Parhaodd staff atal gyda'u sesiynau ail-ymgysylltu gyda phartneriaid allanol – mae hyn er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau mwyaf penodol rydym yn eu derbyn ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae enghreifftiau o'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod chwarter tri yn cynnwys Baywater, Therapyddion Galwedigaethol, cymdeithasau tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Age Connect, a Gofal a Thrwsio.

Bu cryn dipyn o weithgarwch atal cynhwysfawr dros gyfnod y Nadolig gan ymgysylltu â grwpiau penodol. Er enghraifft, boreau coffi ac ymweliadau â chanolfannau siopa penodol. Cefnogwyd banciau bwyd hefyd, yn ogystal â gweithgaredd ar y cyd ag elusennau yn helpu i ddanfon anrhegion i bobl fregus.

Mae datblygiad ein staff atal yn parhau yn unol ag Amcanion yr Adran gydag o leiaf 2 sesiwn 30 munud bob mis gan ddefnyddio darparwyr allanol a mewnol.

**Camau Gweithredu Pellach:**


Bydd yr holl Reolwyr Partneriaethau yn parhau i ymgysylltu â gwylfeydd gweithredol.

# Ein Hegwyddor Diogelu


## 10 Galwadau Diangen

Aethpwyd at gyfanswm o **2,521** o alwadau diangen, sy'n gynnydd o 11.6%.

Cofnodwyd cynnydd ar draws pob categori o alwadau diangen, gyda chynnydd o 16.7% mewn Larwm Tân oherwydd cyfarpar (1,332 i **1,555**), cynnydd o 54.5% mewn Galwadau Diangen Maleisus (33 i **51**), a chynnydd o 2.3% mewn Galwadau Diangen Diffuant (894 i **915**). Mae'r holl gategorïau galwadau diangen bellach ar eu lefelau uchaf o'i gymharu â'r pum mlynedd diwethaf.





Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Reoli yn parhau i ddarparu canllawiau i Wylfeydd yr Ystafell Reoli ar yr arferion y mae angen cadw atynt wrth gofnodi'r categori o alwadau diangen.



## 11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol


Derbyniwyd **1,480** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, aethpwyd i lai nag 1.0% ohonynt.

Er yr aethpwyd at 13 digwyddiad System Larwm Awtomatig Masnachol, cadarnhawyd gan Dîm Rheoli'r Ystafell Reoli bod pob un ac eithrio un o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn eiddo eithriedig h.y. safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) neu'r rhai â risg o gwsg ac ati. Yr un eithriad i hyn oedd eiddo a oedd yn cael ei ystyried yn wreiddiol yn ddomestig, ond fe'i nodwyd fel un masnachol tra oedd y peiriant ar y ffordd - felly caniatawyd i un peiriant barhau a mynd i'r digwyddiad. Mae digwyddiadau System Larwm Awtomatig Masnachol yr aethpwyd atynt yn cael eu gwirio'n fisol gan Dîm Rheoli'r Ystafell Reoli, ac fe gadarnhawyd, os yw'r Gwasanaeth yn mynd i ddigwyddiad System Larwm Awtomatig Masnachol, y bydd hynny naill ai oherwydd ei fod wedi'i eithrio neu oherwydd bod yr wybodaeth wedi newid ar ôl anfon peiriant allan.




## 12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **275** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty, sy'n ostyngiad o 31.3% a'r nifer isaf o alwadau System Larwm Awtomatig ysbyty a dderbyniwyd yn y pum mlynedd diwethaf. Aethpwyd at **99**, gostyngiad o 42.8% o 173.




## 13 CEF Berwyn

Cafodd **48** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yng Ngharchar y Berwyn, ac aethpwyd at **34** o'r rhain. Mae hyn 70.0% yn fwy na'r llynedd.



**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

**GIG**

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r GIG ar 22.01.2025 gyda'r Uwch Swyddog Ystadau ar gyfer Deddfwriaeth a Thân, ynghylch pob digwyddiad gan gynnwys larymau tân diangen. Cafwyd trafodaeth ar sut i leihau rhyngweithiadau dynol gan fod rhai rhyngweithiadau hawdd eu lleihau ar y galwadau a gawsom. Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ar ddeddfwriaeth HTM a chydymffurfio â materion system a allai arwain at bresenoldeb GTAGC. Ar hyn o bryd mae tuedd tuag i lawr o ran galwadau, ond gellir lleihau'r rheini ymhellach drwy ddull cydweithredol a thrwy gydweithio. Cytundeb ar y cyd ar ffordd ymlaen i gyflwyno gweithio ar y cyd a phartneriaethau ar hyfforddiant DPP ac o bosibl hyfforddiant ffurfiol os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu.

**CEF Berwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod ar 04.02.2025 gydag Arolygwr Ystadau'r Goron i drafod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yng Ngharchar y Berwyn, a hefyd i drafod y rhaglen archwilio a rhan GTAGC yn y rhaglen honno.

Gellir priodoli y cynnydd mewn digwyddiadau i nifer o ffactorau, ond mae hyn yn bennaf oherwydd yr elfen ddynol ac yna'r ffactorau eilaidd yn amgylchedd y carchar megis cyfle/dioddefiaeth/eisiau symud carchardai/fêps ac eitemau trydanol eraill o fewn y gell y gellir eu defnyddio i ddod yn bwynt cynnau tân.

Rydym hefyd wedi cytuno, fel rhan o'r broses archwilio, ein bod yn cyflwyno mwy o swyddogion Cydymffurfiaeth a swyddogion Gweithredol i'r eiddo fel nad oes gennym un pwynt methiant/mwy o gydnerthedd rhyngom ni ac Ystadau'r Goron gan fod hyn wedi bod yn broblem ers nifer o flynyddoedd yn flaenorol.

Yn ystod y broses archwilio byddwn hefyd yn gofyn i Bennaeth Gorsaf Wrecsam gwrdd â'r tîm rheoli tân i drafod unrhyw faterion a sicrhau ansawdd yr arferion presennol i sicrhau gweithdrefnau gweithredu safonol cywir.

# Ein Hegwyddor Ymateb

## 14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad


Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System dyletswydd ar alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd criwiau amser cyflawn neu griwiau dydd.

| Argaeledd Gorsafoedd System dyletswydd ar alwad ar gyfartaledd 06:00-18:00 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Diwrnod/Mis** | **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Ch.3** |
| **Dyddiau yn yr Wythnos** | 4 | 5 | 6 | 5 |
| **Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)** | 11 | 12 | 14 | 12 |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | 6 | 7 | 9 | 7 |

D.S. Mae'r niferoedd oedd ar gael wedi'u talgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio




| Nifer y Diwrnodau Argaeledd Wedi'i Gynllunio a Gyflawnwyd | |
|---|---|
| **Bodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd ar Gael 100%** | |
| Dyddiau yn yr Wythnos | 64 |
| Penwythnos/Gŵyl Banc | 28 |
| **Ni Fodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd ar Gael 100%** | |
| Amh | 0 |


## 16 Technolegau Datblygol

Wrth i dechnoleg esblygu a'n dibyniaeth gymdeithasol arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod y Gwasanaeth Tân yn wynebu risgiau newydd a chymhleth. Gall technolegau datblygol fod ar sawl ffurf, gan gynnwys pethau megis:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon-Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn i'w system cofnodi digwyddiadau newydd, y Llwyfan Data Tân ac Achub (FaRDaP), gyda'r bwriad o gasglu'r data hwn o ddechrau Ch2 yn 2025/26. Bydd dal angen defnyddio chwiliadau geiriau allweddol i dynnu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn y cyfnod hwn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 ac mae'n cynnwys pob categori o ddigwyddiad.





D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol


## 17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **162** o danau glaswelltir, coetir a chnydau, gostyngiad o 21.4% o 206. Mae hyn 45.8% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 299.





## 18 Tanau gwyllt

Aethpwyd at **bum** tân gwyllt, gostyngiad o 61.5%, a 75.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 20. O ganlyniad, gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i ychydig dros 232.5 awr, o'i gymharu â bron i 477 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.



## 19 Llifogydd

Aethpwyd at **65** o ddigwyddiadau llifogydd, gostyngiad o 37.5% o'i gymharu â 104, a dau yn llai o ddigwyddiadau na'r cyfartaledd 3 blynedd o 67.




Rhoddwyd cyngor mewn **30** digwyddiad, ac fe aethpwyd at **12** o ddigwyddiadau er mwyn gwneud y lleoliad yn ddiogel.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coeden unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un mae'r gwasanaeth wedi mynd ato ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd at ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – LTA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo megis gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu le bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu le amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |